

Gwneud daioni

“... carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu.” (adn. 27)

Beth am ddarllen Luc 6:27–36 ac yna myfyrio

Esiampl arall a roddodd ein Harglwydd i ni oedd yr esiampl o wneud daioni. Yn y darlleniad heddiw mae Crist yn pwysleisio'r ffaith bod gwir blant Duw yn ymhyfrydu mewn gwneud daioni – hyd yn oed i'r rhai sy'n elynion iddynt. Nid rhywbeth roedd Iesu'n ei bregethu'n unig oedd hyn; roedd yn ei roi ar waith hefyd. Flynyddoedd wedyn, wedi i Grist atgyfodi a dychwelyd i'r nefoedd, dywedodd yr apostol Pedr amdano: “Aeth ef oddi amgylch gan wneud daioni ac iachau pawb oedd dan ormes y diafol, am fod Duw gydag ef.” (Actau 10:38).

Bellach, wrth gwrs, mae bod yn rhywun sy'n gwneud daioni yn tueddu i ennyn sarhad. I lawer, mae'r term yn golygu person hunangyfiawn, Phariseaidd a nawddoglyd sy'n cywilyddio'r gweddill ohonom. Ond mae Iesu'n eithriad gogoneddus i hyn. Mae ei ddull o weithredu yn ei glustnodi fel yr Iachawdwr a anfonwyd o'r nef sydd, yn unigryw ac yn wylaidd ac yn hunanaberthol yn mynd “oddi amgylch gan wneud daioni ... am fod Duw gydag e.”

Dywedir bod gweithredoedd dyn yn byw ar ei ôl. Roedd hyn yn sicr yn wir iawn am Iesu. Roedd gan awduron yr efengylau ddigonedd o ddewis wrth gofnodi'r dystiolaeth am ei wyrthiau a'i weithredoedd mawr. Ni fyddai'r byd, meddai Ioan, yn ddigon mawr i ddal y llyfrau fyddai'n cael eu hysgrifennu (Ioan 21:25). Felly, dim ond detholiad o'r holl bethau rhyfeddol a wnaeth Iesu mae Mathew, Marc, Luc ac Ioan yn ei roi inni. Mi garen ni wybod mwy. Ond mae pwrpas i'w cynildeb. Dim ein syfrdanu ag effeithiau goruwchnaturiol arbennig ydy eu hamcan, ond ein hysgogi i fod â ffydd. Maen nhw am i ni gredu, nid bod wedi'n synnu. Ac nid yn unig credu, ond dilyn yr esiampl mae Iesu wedi'i rhoi i ni. Ydych chi wedi gwneud rhywbeth da i rywun yn ddiweddar?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 3:27–30; 14: 22; Micha 6:6–8; Math. 25:31–46; Titus 3:1–8; 3:12–14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth a gais yr Arglwydd gennym, yn ôl Micha?
2. Beth sy'n gwahaniaethu'r defaid oddi wrth y geifr yn nameg Iesu?

Gweddi

O Dad, maddau i mi os ydw i'n ymwneud mwy â theori'r bywyd Cristnogol yn hytrach na'i fyw. Helpa fi i wneud rhywbeth da i rywun heddiw. Ac nid heddiw'n unig, ond pob dydd. Dw i'n gweddïo'n enw Iesu. Amen.